ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANDYSILIOGOGO

2021 / 22

Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned 3

Rôl a Swyddogaethau'r Cyngor 4

Aelodaeth o'r Cyngor 7

Gwaith y Cyngor 2021/2022 8

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol 11

Mynychu'r Cyngor / Cysylltwch â ni 12

1

Rhagair gan Gadeirydd y Cyngor Cymuned

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol cyntaf Cyngor Cymuned Llandysiliogogo. Mae'n rhoi trosolwg o waith y Cyngor yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Cynghorydd Ann Harris

Cadeirydd Cyngor Cymuned Llandysiliogogo 2021 / 2022

2

Rôl a Swyddogaeth y Cyngor

Rôl y Cyngor

Gwaith a wneir gan y Cyngor Cymuned

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn datgan bod pob rhan o Gymru mewn cymuned. Yn Lloegr, mae'r term "Cynghorau Plwyf" yn dal i gael ei ddefnyddio ond yng Nghymru, fodd bynnag, gelwir y term cyfreithiol a chyfansoddiadol ar gyfer yr unedau hyn o weinyddiaeth llywodraeth leol yn "Gynghorau Cymuned"

Y Cyngor Cymuned yw'r haen isaf o lywodraeth leol ac mae agosaf at y cyhoedd o ran diwallu anghenion lleol. Mae gan y Cyngor nifer o hawliau a dyletswyddau statudol.

Beth yw strwythur y Cyngor?

Darperir rhestr o'ch cynghorwyr lleol ar y dudalen nesaf. Mae gan y Cyngor Cymuned 11 Cynghorydd nad ydynt yn cynrychioli unrhyw blaid wleidyddol. Cânt eu hethol bob 4 blynedd. Cyflogir Clerc/Swyddog Ariannol rhan-amser i ymdrin â'r holl drefniadau ar gyfer cyfarfodydd a pharatoi agenda i ymdrin â'r cofnodion a materion ariannol a gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu gwaith y Cyngor. Cyflogir contractwyr hefyd i wneud gwaith arbenigol megis atgyweirio a chynnal a chadw e.e. torri glaswellt.

Mae'r Cyngor Cymuned yn gwneud sylwadau ar geisiadau cynllunio cyn i Gyngor Sir Ceredigion benderfynu arnynt. Maent yn darparu cyllid ar gyfer digwyddiadau, clybiau a gwasanaethau yn y Gymuned. Mae'r Cyngor yn penodi aelodau i eistedd ar gyrff Llywodraethu'r Ysgol.

Sut mae'r Cyngor yn gweithio?

Bydd unrhyw waith a wneir gan y Cyngor yn cael ei weithredu yn dilyn penderfyniadau a wneir mewn cyfarfodydd agored. Telir am unrhyw waith gydag arian cyhoeddus y mae'r Cyngor yn ei dderbyn drwy godi praesept sy'n rhan o'r Dreth Cyngor a bennir gan Gyngor Sir Ceredigion.

Beth yw praesept y Cyngor?

Yn 2021/22 pennwyd praesept y Cyngor ar £9,873.00 Codir y praesept i ariannu cyfrifoldebau'r Cyngor Cymuned gan gynnwys cynnal toiledau Cwmtydu, cynnal a chadw diffibriliwr a chyfraniadau i sefydliadau lleol.

Mae'r praesept yn cyfrif am £21.36 fesul eiddo (Band D).

A all y cyhoedd fynychu'r cyfarfodydd?

Ar bob cyfrif. Mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd fel gwrandawyr yn unig – a byddem yn annog hynny. Nid oes gan aelodau'r cyhoedd hawl i gymryd rhan yn nhrafodaethau'r Cyngor na rhoi eu barn yn ystod y cyfarfod – fodd bynnag, efallai y bydd amgylchiadau eithriadol lle caniateir i'r Cadeirydd alw am gyfraniad gan y cyhoedd ac iddynt wneud datganiad. Cynhelir cyfarfodydd y Cyngor yn fisol, ac eithrio mis Awst, ac

fe'u cynhelir fel arfer ar yr trydydd nos Fawrth o’r mis, trwy Zoom yn ystod y 12 mis diwethaf oherwydd Covid.

Cyfarfod Blynyddol

Mae'r cyfarfod blynyddol yn rhwymedigaeth cyfreithiol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cynnal y cyfarfodydd blynyddol ym mis Mai. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y dyddiad. Yr eitem gyntaf ar yr agenda yw ethol Cadeirydd y Cyngor Cymuned am y deuddeg mis nesaf.

Etholiad

I gael ei ethol yn Gynghorydd rhaid i aelod fod yn gymwysedig o dan y gyfraith, bod yn Ddinesydd Prydeinig a rhaid iddo fod wedi cyrraedd 21 oed.

Rhaid i'r ymgeisydd hefyd fod yn-

• etholwr llywodraeth leol

• wedi meddiannu, yn ystod y deuddeg mis cyfan cyn y diwrnod hwnnw, fel perchennog neu denant unrhyw dir neu fangre arall yn yr un ardal

• mae'r pennaeth, neu'r unig le gwaith, yn ystod deuddeg mis cyn yr etholiad, wedi bod yn yr ardal hwnnw.

• yn byw yn ystod y deuddeg mis cyfan yn yr ardal honno, neu o fewn tair milltir i'r ardal honno.

3

Aelodaeth o'r Cyngor

2021/2022

Mae gan Gyngor Cymuned Llandysiligogogo 11 Cynghorydd

Aelod o'r Cyngor	Tymor y Swydd	Tymor fel Cadeirydd & Is-gadeirydd
1. Cynghorydd Ann Harris	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	Cadeirydd Mai 2021 - Mai 2022
2. Cynghorydd Aled Dafis	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	Is-gadeirydd Mai 2021 - Mai 2022
3. Cynghorydd Alun Davies	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
4. Cynghorydd Bleddyn Davies	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
5. Cynghorydd Cen Llwyd	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
6. Cynghorydd Gareth Evans	05/05/17- Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
7. Cynghorydd Gareth Lloyd	05/05/17 Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
8. Cynghorydd Heledd Dafis	Cyfethol – 15/02/22 Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
9. Cynghorydd Mary Davies	05/05/17 Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
10. Cynghorydd Morys Ioan	Cyfethol – 15/03/22 Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	
11. Cynghorydd Vaughan Jones	Cyfethol – 19/10/21 Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022	

Pryd mae Cyngor Cymuned Llandysiliogogo yn cyfarfod?

Mae Cyngor Cymuned Llandysiliogogo yn cyfarfod ar y trydydd nos Fawrth y mis (ac eithrio mis Awst).

4

Gwaith y Cyngor yn 2021/2022

Creu Tudalen Facebook

Mi oedd tudalen y Cyngor Cymuned yn weithredol o fis Mai 2021.

Trwshio dwy fainc cymuendol yn Nhalgarreg.

Cytunwyd ar y 15eg o Fehefin 2021 trefnu cael saer lleol i drwshio y ddwy fainc.

Parcio yng Nghwmtydu

Cysylltu gyda'r Cyngor Sir ar sawl achlysur yn nodi pryderon ynghlyn â pharcio yng Nghwmtydu ar achlysuron prysur.

Erydu yng Nghwmtydu

Gweithio ar y cyd gyda thrigolion Cwmtydu, y Cynghorydd Sir Gareth Lloyd, Cyngor Sir Ceredigion, AS Ben Lake a'r Ymddiriolaeth Genedlaethol i cael cynllun ar waith i ddatrys yr erydiad ar lan yr afon.

Mabwysiadau peiriant Diffibriliwr Talgarreg (tu allan i Dafarn Glan yr Afon)

Cytunodd y Cyngor ar y 14eg o Ragfyr i fabwysiadu peiriant diffibriliwr yn Nhalgarreg gan gydnabod ei bwysigrwydd i'r gymuned.

Cyflymder wrth ddod mewn i Gaerwedros

Cysylltu gyda'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt ystyried mesurau cyflymder yn yr adolygiad traffig nesaf.

Cwricwlwm i Gymru – Ysgol Bro Sion Cwilt

Cyfrannu tuag at broses o greu gweledigaeth ysgol gyfan ar ei newydd. Nodwyd ddatganiadau mae'r Cyngor Cymuned yn teimlo sydd yn greiddiol ac yn bersonol i weledigaeth yr ysgol a'i chymuned.

Ceisiadau Cynllunio

Caiff Ceisiadau Cynllunio eu hystyried ym mhob cyfarfod ac anfonir sylwadau at y Gwasanaeth Cynllunio yn unol â hynny.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

Rhoddodd y Clerc y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am elfennau'r Ddeddf a oedd yn berthnasol i'r Cynghorau Tref a Chymuned. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach i'r offer sydd ei angen; a'r costau i ddarparu ar gyfer cyfarfodydd hybrid.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Cymrodd y Cyngor Cymuned ran yn yr ymgynghoriad hwn drwy gyflwyno sylwadau yn codi pryderon na fydd ardaloedd gwledig yn gallu hwyluso cyfarfodydd hybrid oherwydd diffyg safleoedd gyda WIFI.

Cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned – 22 Tachwedd 2021

Roedd y Clerc Sioned Davies yn bresennol ar ran Cyngor Cymuned Llandysiliogogo.

Rhoddion Ariannol (Adran 137)

- Cymdeithas Henoed Talgarreg
- Neuadd Talgarreg
- Neuadd Caerwedros
- Merched y Wawr, Cangen y Bryniau
- Sioe Caerwedros
- Cylch Meithrin Talgarreg
- CFFI Caerwedros
- Ysgol Talgarreg

5

Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Y meysydd blaenoriaeth y dylai Cyngor Cymuned Llandysiliogogo eu hystyried yn 2021/22

- Ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr
- Gwella Gwefan y Cyngor Cymuned
- Parhau i redeg Toiledau Cwmtydu
- Cyfrannu tuag at Arolwg Tai lleol
- Argraffu Llyfryn Talgarreg
- Creu Llyfryn ar gyfer ardal Caerwedros
- Trefnu adnoddau ar gyfer cynnal cyfarfodydd aml-leoliad

6

Mynychu Cyngor Cymuned Llandysiliogogo/ Cysylltwch â Ni

Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llandysiliogogo

Mae'r Cyngor yn awyddus i weld aelodau'r cyhoedd yn mynychu Cyngor Cymuned Llandysiliogogo.

Ac eithrio eitemau cyfrinachol, cedwir pob busnes yn gyhoeddus.

Cyhoeddir yr holl bapurau agenda cyhoeddus ar-lein 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod

Cysylltwch â ni

Mrs Sioned Davies, (Clerc)

Fronhaul,
13 Bro Gido,
Gilfachreda,
Ceredigion.
SA45 9SR.

Gwefan: -

https://www.llandysiliogogo.org/index.php/

Gwybodaeth Cynghorwyr

https://www.llandysiliogogo.org/index.php/cynghorwyr